

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Tachwedd 11eg 2014 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Davies (is-gadeirydd), Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Euros Puw, Gwilym Davies, Rhys Richards, Geraint Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jean Roberts a Gwynedd Jones

Darllenwyd cofnodion y ddau cyfarfod diwethaf, mis Gorffennaf a mis Medi, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Ysgol Y Parc.

Adroddodd y clerc bod y cytundeb a anfonwyd wedi cael ei archwilio ac roedd y mater yn nwylo Cyngor Gwynedd nawr i gwblhau'r gwerthiant cyn gynted a phosib.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn

- i) Derbyniwyd neges o ddiolch gan y Bartneriaeth am y cyfraniad ariannol a anfonwyd iddynt ym mis Medi.
- ii) Derbyniwyd braslun o hyn a drafodwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 22/10/14.
- iii)) Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu sesiwn hyfforddiant 'Datgonoli Gwasanaethau' a oedd yn gael ei drefnu gan y Bartneriaeth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y byddai Jean Roberts, Geraint Davies, Geraint Jones a'r clerc yn mynychu'r hyfforddiant.

b) Cyngor Gwynedd

- i) Llundio Strategaeth Lletya Pobl Hyn – derbyniwyd llythyr yn egluro eu bod yn casglu data ac yn bwriadu drafftio strategaeth.
- ii) Her Gwynedd – derbyniwyd gwybodaeth am eu digwyddiadau cyhoeddus i drafod yr her ariannol sylweddol mae'r Cyngor yn ei wynebu.

c) Heddlu Gogledd Cymru

- i) Derbyniwyd gwybodaeth am eu hymgyrchon diweddaraf i ddiogelu'r cyhoedd yn ystod dathliadau Calan Gaeaf a nosweithiau tan gwyllt.

ch) Un Llais Cymru

- i) Derbyniwyd cais i anfon gwybodaeth a fyddai o gymorth gyda'r 'Arolwg Moch Daear Marw'.
- ii) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn y Pafiliwn Criced, Dolgellau ar y 19/12/14.

ch) Amrywiol

- i) Eglwys Christ - Derbyniwyd gwahoddiad i wasanaeth sefydlu'r Parch. Elaine Atack, yn Y Bala ar y 19/11/14.
- i) Grwp Cynefin – gwybodaeth am eu grantiau datblygu cymunedol. . Gofynnwyd i'r clerc rhannu'r gwybodaeth gyda'r neuaddau lleol.
- iii) Vodafone - gwybodaeth am eu gwasanaeth 'Rural Open Sure Signal – 3G'. Gofynnwyd i'r clerc rhannu'r gwybodaeth eto gyda'r neuaddau lleol.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w chefnogi:-
NP5/72/86A – Adeiladu garej/storfa ar wahan. Ty isaf, Rhyduchaf.

Derbyniwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-
NP5/72/232 – Cynllun trydan dwr. Nant Aberdderfel, Arenig.

Materion Ariannol.

Derbyniwyd ail randal y Praesept - £1650

Swyddfa Archwilio Cymru.

Derbyniwyd llythyr yn egluro bod y Swyddfa wedi penderfynu ailddosbarthu cronfeydd wrth cefn a bod £30 ar gael i pob Cyngor Tref a Chymuned yng Nghymru. Cytunwyd i lenwi'r ffurflen i hawlio'r arian.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) Bethan Jones (Cyflog y clerc, Gorff – Medi)

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Eisteddfod Genedlaethol, Ty Gobaith, Eisteddfod Llangollen a Eisteddfod Talybont. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Materion Lleol.

Baw ci ym mhentref Parc.

Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â warden cwn Cyngor Gwynedd i gadarnhau eu bod wedi ymweld a'r pentref gan nad oedd golwg o'r arwyddion ychwanegol a ofynnwyd am.

Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion isod ymlaen i Gyngor Gwynedd.

a) Roedd angen clirio'r ddwy deiar lori a oedd wedi cael eu gadael yn y gilfan ar y A4212 ger cyffordd Rhyduchaf.

b) Oedd posib gosod arwydd blaenoriaeth traffig ar bont ger Fedw Arian, Rhyduchaf gan fod anghysondeb ar bwy oedd gan y flaenoriaeth, y cerbydau a oedd yn dod i lawr y ffordd neu y rhai oedd yn mynd i fyny.

c) Derbyniwyd cwynion bod dwr yn hel ar y ffordd, wrth giat y Garth, ar bont Fedw Arian, Rhyduchaf ar ol i'r contractwyr dwr ail dario'r ffordd a rhwng Llwyn Hir a Hafod Fadog, Parc.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Ionawr 13eg yn Neuadd Maesywaen am 8.00y.h.